WG35.5.179

# GALAREB

## ER COFFADWRIAETH AM

# Y PARCH. D. STEPHENSON,

GWEINIDOG YR EFENGYL AR BRYN-
MAWR, GER NANTYGLO,

YR HWN A FU FARW AWST 22, 1849, YN YR
65 MLWYDD O'I OEDRAN.

—o—

Ehedeg wnaeth i'r lon baradwys fry,
O'r cystudd caeth sydd ar ein daear ni,
Uwch poen a chur, at engyl nefoedd wen,
Ca'dd goron bur drag'wyddol ar ei ben.

GAN T. DDU, O GEREDIGION.

Cyhoeddedig ar ddymuniad Gweinidogion yr Annibynwyr, &c.

—o—

Cyflwynedig i'r Parch. Noah Stephens, fel arwydd o
barch am ei frwdfrydedd dros ei iaith, ei wlad,
a'i genedl.

BRYNMAWR:
ARGRAFFWYD GAN DAVID STEPHENSON.

X205374804

# GALARED.

Ust ! beth yw'r ochain mawr
Sy'n llanw cyrau'r llawr?
Ymdaenodd gwyll—
Ow, Gwalia gyll ei gwawr!
Ah ! galar, galar erch sy'n bod :
A fu yr un yn fwy erio'd ?
Dystewa sain gorfoledd
Yn rhyfedd îs y rhod.

Gwaedd Sïon wan, yn wir,
Mewn dyrus anial dir,
Am gyfaill mwyn
Mawr yw ei chwyn a'i chur ;
Mae bronau'n brudd gan serch a braw,
A gruddiau miloedd, yma' thraw,
A wlychir gan wlaw ochain—
Mae llefain ar bob llaw.

Gwas doeth yn eglwys Dduw
A gafodd farwol friw
Gan angau certh—
Ei dafod dinerth yw :
Nis dichon mwyach draethu'n gu
Am Aberth gwaedlyd Calfari ;
Ei babell a ddattododd—
Diangodd arnom ni.

Galared pawb yn awr
Drwy Gymru, fach a mawr,
Hen gyfaill cu
A ga'dd ei dorri 'lawr ;
Ah ! gofid, gofid trist yw hyn
Mewn llawer bro—llu ar y bryn
A wleir yn oer wylo
Fod arch am dano'n dyn.

Cydunwch feirddion byd,
Yn frawdol o un fryd,
Am Gymro glân
Gwnewch alar-gân i gyd:
Un a goleddai'n hawddgar iaith
Sydd obry yn y lletty llaith
Mewn graian oer yn gorwedd—
Daeth diwedd ar ei daith.

Rhyw hiraeth mawr y sydd
Am dano nos a dydd;
Mae bryn a bro
Yn ocheneidio'n brudd;
Ow! galar cyffredinol yw,
A gloes oedd ddofn i eglwys Dduw,
E roddwyd yn y ddae'r
Ei gwâr wyliedydd gwiw.

Teilyngai barch o hyd
Tra bu mewn anial fyd;
Ni feddai ddim
Digofaint llym na llid;
Pelyd'rau serch a wnaent eu sedd
Yn amlwg yn ei siriol wedd;
Ond, ow! ein cyfaill hawddgar,
Mae'n fyddar mewn oer fedd.

Yr oedd yn gwneyd ei ran
Yn addas yn mhob man,
Fel hawddgar ddrych,
O flaen y gwych a'r gwan:
Dichlynaidd oedd ei rodiad ef,
Hên athraw mâd, mewn gwlad a thref;
Erfyniai ar y werin
I garu Brenin nef.

Hên angau creulon mawr
A'i torrodd ef i lawr
A'i sydyn saeth;
Uthr niwaid wnaeth yn awr;

Ardderchog was i'r Iesu gwiw,
A gwr o fri ga'dd farwol friw:
Pregethai i rai caethion
Efengyl dirion Duw.

Ffarwel i'r cyfaill llon
Mwy ar y ddaear hon;
Mae mantell glos
Gwyll hir-nos ar ei fron:
Caiff dawel orphwys yn y pridd
Hyd foreu'r adgyfodiad ddydd,
Pan ddelo plant y tonnau
O'u rhwymau maith yn rhydd.

Oed Crist, ein Meddyg mawr,
I ro'i eleni' lawr,
Un mil saith cant
A nodant ini 'nawr,
Chwe' ugain noeth, 'chwanegu naw,
A deunaw'n llwyr, a dwy gerllaw,
Pan ro'id ein cyfaill hydr-wych
O'r byd yn rhych y rhaw.

Galarus cofio mai
Ei ro'i a'i gloi dan glai
Ga'dd bugail mwyn;
Dyddanu'r wyn a wnai:
E ddenodd afradloniaid lu
I'r pyrth i gael eu porthi'n gu;
Coleddodd y mamogiaid,
Y defaid ddöent i dy.

Ei fwyn gynghorion fyrdd
Oedd fel ergydion gyrdd;
Annogai'r gwan
I ffoi o'i aflan ffyrdd:
Gweinidog o'r ffyddlona' fu,
Duwinydd call, ag athraw cu;
Yn ddidwyll y traddodai
Am berlau Calfari.

Hên athraw duwiol, doeth,
A gwr bregethai'n goeth
Athrawiaeth bur;
Dywedai'r gwir yn noeth:
Bu'n weithiwr difefl yn y byd;
Pob talent ga'dd ddefnyddiai i gyd;
Ddyn hynod, gwnai ddaioni,
'Roedd hyny'n llon'd ei fryd.

E fu'n ymdrechgar iawn,
Foreu-ddydd a phrydnawn;
Yn nerth ei Naf
C'ai'n llwyr gynhauaf llawn:
'Roedd Ior y nef yn llwyddo'i waith
Ar hyd ei weinidogaeth faith;
Bu'n ymgeleddwr tirion
I Sïon ar ei thaith.

Rehoboth, ar y llawr,
A fydd yn golofn fawr
O'i ymdrech ef:
Mae yn y nef yn awr
Rhai'n canu am yr Aberth drud
Ryw beraidd gerdd yn bur i gyd,
Ennillodd at y Meddyg
O goedwig wyllt y byd.

Cyhoeddodd ingawl loes
y Gwr fu ar y groes,
I'r euog rai
Tra par'odd dyddiau'i oes:
E fu'n wych odidog was,
Nes myn'd dàn len daearen las;
Dywedai'n llawn o deimlad
Fod Ceidwad i rai cas.

Pregethodd Iôr mewn cnawd
I ti, bechadur tlawd—
Iachawdwr byd
A gymerth lid a gwawd,

I brynu euog ddamniol ddyn
Mewn anial wlad, oedd wael ei lun,
Ar bren y groes yn berffaith,
Boddlonai'r gyfraith gûn.

Darluniai'r dryllio fu
Ar allor Calfari,
A'r ffordd a wnaed
Drwy dywallt gwaed yn lli':
Ni fynai gael ei gyfri'n ddim—
Yn Iesu Grist yr oedd ei rym
I wyliaw muriau Seion
Rhag llid gelynion llym.

Ni rydd pechodau'r oes
Na gälon creulon croes,
Na llygredd mwy,
I'w galon glwy' na gloes;
Ac ni rydd angau, brenin braw,
Mwy ar ei lwch mo ôl ei law;
Mae heddyw wedi dianc
I'r didranc fywyd draw.

Ehedodd uwch y llawr
I blith y dyrfa fawr
Sy'n llon eu llef:
Mae yn y nef yn awr,
Goruwch gelynion geirwon gad,
Yn moli'r Oen am gariad rhad,
A gweddus gân drag'wyddol
Sydd gan ein duwiol dad.

Ha! *Dafydd Stephenson* mwyn,
E gefaist ti dy ddwyn
Gan Iesu Grist
Goruwch pob athrist gwyn;
Cei ganu yn y drydedd ne',
A sylwi draw yn Salem dre'
Ar Un fu dan yr hoelion
Rhwng lladron yn ei le.

Yr wyt ti, ein hanwyl frawd,
Yn gweled Duw mewn cnawd,
Eneinniog ne',
Daeth yn dy le yn dylawd;
Cei yna ganu'r anthem bur,
Ac ni bydd diwedd arni'n wir,
Cei wenu yn ei wyneb
I drag'wyddoldeb hir.

Marwolaeth un mor gu,
Pa addysg rydd i ni ?
Ein bod yn wan
O dan y cwmmwl dû,
A dynwyd draw yn Eden ardd,
Drwy wneyd yr hyn oedd Duw'n wahardd ;
Ow ! dygwyd llygredigaeth
I'r hen ddynoliaeth hardd.

Ond diolch byth, er hyn
Caed Ffynnon ar y bryn,
O'n natur ni,
I olchi'r dû yn wyn.
Miliwnau ar filiwnau'n wir,
O blant y dyrus anial dir
A welir byth yn canu
Yn ngwlad goleuni clir.

Daeth Crist i Fethlehem,
Aeth dan y gyllell lem ;
Hen deulu'r gwyll
Dröent arno erchyll drem.
I dynu beiau erch y byd,
A dofi angerdd Dwyfol lid,
Wynebodd ef yn aberth ;
Oen prydferth aeth mewn pryd—

I'r lladdfa yn ein lle;
Gogoniant iddo 'fe :
Er bod yn gaeth,
Ffordd newydd wnaeth i'r ne ;

Cynhesodd ef i'w anwyl blant
Oer gyrau'r bedd, y garw bant.
Mae *Dafydd Stephenson* duwiol
Yn chwareu'r nefol dant—

Am iachawdwriaeth gaed
Drwy rinwedd Dwyfol waed:
Geill pawb a ddêl
Yn isel wrth ei draed
Gael myned ato ef i fyw,
Heb dalu dim, yn deulu Duw;
O, dyger ni'n gadwedig—
Mae Crist yn Feddyg gwiw.

Dihunwn, fach a mawr,
Mae angau'n tòri 'lawr
A'i gryman llym—
Wna cryfder ddim yn awr:
Nid oes a ddeil yn ngrym y dw'r
Ond rhan yn Nghrist, y Canol-wr;
Er myned dan y goll-farn,
Ein Duw sydd gadarn Dwr.

Mae ef yn Noddfa glêd—
Y cyfiawn ato rêd
O'r anial dir—
Mae 'i ddwylaw pur ar led:
Daw Seion wan i'r làn rhyw bryd
O orthrymderau maith y byd,
Yn iach i gôl ei Cheidwad,
O'i gariad oll i gyd.

Anfeidrol gariad Ior
Sydd annherfynol stôr,
I gyd yn goeth
O gyfoeth fel y môr;
Bydd Seion lân heb unrhyw lèn
Yn rhoddi'r goron ar ei ben;
A gweddus lu'n drag'wyddawl
Ro'nt iddo'r mawl, Amen!

*Na argraffed neb yr Alareb hon heb ganiatad yr Awdwr.*